Papur Bro Abertawe

# WILIA


RHIFYN 480 RHAGFYR 2025 | AM DDIM

## LLYFR AR RAN LIWGAR O HANES ABERTAWE

Wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar yw'r llyfr newydd hwn gan Robin Campbell, y nofelydd a'r hanesydd lleol. The Swansea Mohawks- The Dolly Club yw'r teitl, ac mae'r llyfr ar gael i'w brynu yn Siop Tŷ Tawe.

Mae Robin wedi cofnodi sawl agwedd ar hanes Abertawe, gan gynnwys ar ffurf baledi.

Mae'r llyfr yn dilyn hanes y Dolly Club yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg - criw o ddynion oedd yn cwrdd yn y Rose and Crown a'r Duke yn Wind Street yn ogystal â'r Shades yn Salubrious Place. Tra bod yr aelodau hŷn yn mwynhau eu hunain wrth yfed, ysmygu a chlebran, byddai'r garfan ifanc yn mynd mas yn yr oriau mân i gwrdd â phuteiniaid a chwarae triciau ar heddweision a thrigolion diniwed Abertawe. Roedden nhw'n selio eu hymddygiad ar foesau 'bucks' ifanc Llundain a gangiau Mohawk y ganrif flaenorol




## MARW EIRLYS EVANS



Tristwch i bobl y Tabernacl a Threforys yw clywed am farwolaeth Eirlys Evans.
Bu'n athrawes ysbrydoledig yn Ysgol Cwmrhydyceirw ac yn un o gynheiliaid yr achos yn y Taberacl, a'i gofal o blant y capel ar hyd y blynyddoedd yn gynnes.
Bu farw'n dawel ar 11 Tachwedd. Gedy ar ei hôl ei merch Eirian, a'i phartner Dai, a'i hwyresau Elin a Lleucu. Bydd y gwasanaeth angladd yn Tŷ-Hedd Funeral Home, Heol Mynydd Garnlwyd, ddydd Gwener 5 Rhagfyr 2025 am 11.
Pleser cyhoeddi englyn coffa gan Huw Dylan Owen

Eirlys Lloyd Evans
(1931-2025)

A fu hiraeth yn Nhreforys - fel hwn?
Cof y wlad sydd felys
am wên radlon, llon ei llys
a'i harlwy, cofiwn Eirlys.

-Huw Dylan Owen

**CYNGERDD CAROLAU EGLWYS SANT IAGO 2025**
**-ROB EVANS**



Mae'n tynnu at y Nadolig unwaith eto a dw i'n dechrau meddwl am ein Cyngerdd Nadolig. Er cyngerdd 2024 oedd y gyntaf i ni gael yn eglwys Sant Iago (St James) yn Walter Road mi wnaeth bron cant o bobol ddod trwy'r drws. I fod yn berffaith onest doedd gen i ddim syniad faint o bobl fydd yn dod ac roeddwn i'n poeni'n ofnadwy'r holl ffordd i'r eglwys. Ond roedd pobl yna yn barod a mwy yn cyrraedd trwy'r amser. Yn fuan iawn roedd y seddi canol bron wedi llenwi.

Roedd y noson yn wych, ond byddech chi'n disgwyl hynny efo bron gant o bobl Gymraeg a dysgwyr yn canu carolau maen nhw i gyd yn adnabod. Dw i'n siŵr roedd llawer yn teimlo'r to yn codi! Roedd y darlleniadau yn ein hatgoffa ni o wir ystyr y Nadolig – dathlu diwrnod geni'r Iesu.

Roedd yn braf iawn i wybod bod aelodau o Ysgol Bryntawe yna ac yn cymryd rhan, roedd yn codi ein calonnau i glywed nhw yn canu mor dda ac i sylweddoli bod to ifanc yn tyfu i gadw ein hiaith yn ddiogel yn y dyfodol.

Roedden ni'n ffodus iawn i gael cyfraniadau gan David Owen Lewis, gynt o Opera North gydag Alun Tregelis Williams yn cyfeilio.

Roedd yn canu 'But who may abide the day of his coming?' o'r Messiah. yn yr hanner cyntaf ac eto tua'r diwedd yn canu 'Mary's Boy Child'. Roedd cyfle i ni i gyd canu'r cytgan efo fo. Dyna fraint ynte?

Gan roedd Eisteddfod Yr Urdd ym Margam eleni roedden ni'n casglu cyfraniadau at yr achos pwysig yma. Wnaethon ni godi £500 a'i anfon at Ysgol Bryntawe iddyn nhw ei flaenyrru at yr Urdd.
Noson fythgofiadwy yn wir!

Ond os gollech chi'r cyfle llynedd mae cyfle i chi unwaith eto eleni achos ar y 18fed o Ragfyr bydden ni'n cynnal yr ail gyngerdd, yr ail o lawer dw i'n gobeithio. Mi fyddai David Owen Lewis yn canu i ni unwaith eto ond mi fyddai'n canu deuawd gyda David Williams hefyd. Dyma fyddai'r tro cyntaf iddyn nhw ganu gyda'i gilydd. 'World First' os hoffech chi. Baritone a Thenor mewn deuawd - dw i'n edrych ymlaen at eu clywed.

Ar ben hynny byddai Côr Tŷ Tawe yna hefyd.

Rhowch y dyddiad ar y calendr i'ch atgoffa chi, nid yn unig byddech chi'n cael noson i godi'ch calon ond byddech chi'n cefnogi'r elusen Ymchwil Canser Cymru.



## PLETHU POBL DRWY LYFRAU
### -HENI GRUFFUDD

Mae ysgolion ledled Cymru yn derbyn llyfrau am ddim sy'n adlewyrchu'n well ein straeon, ein pobl, a'n cymunedau, wrth i gynllun Rhyngom i gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc gael ei gwblhau.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn anfon dros 49,000 o lyfrau am ddim i ysgolion ar hyd a lled y wlad y tymor hwn, fel rhan o gynllun Rhyngom, sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac Adnodd.

Prosiect tair blynedd, gwerth £810,000 yw Rhyngom, i gyhoeddi mwy o lyfrau darllen er pleser sy'n dathlu a hyrwyddo amrywiaeth, ar gyfer plant a phobl ifanc. Ers cychwyn yn 2022, mae'r prosiect wedi cefnogi creu llyfrau gwreiddiol Cymraeg a Saesneg newydd sbon, yn ogystal ag addasiadau Cymraeg o lyfrau Saesneg, sy'n adlewyrchu'n well ein straeon, ein pobl, a'n cymunedau.

Comisiynwyd yr ugain llyfr gwreiddiol newydd yn arbennig i'r cynllun, ac ymhlith yr awduron mae ysgrifenwyr tro cyntaf ac awduron cydnabyddedig. Ers eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2024, mae rhai o'r teitlau wedi cyrraedd rhestrau byrion am wobrau, tra bod teitlau eraill wedi ennill gwobrau.

Yn ystod gwanwyn 2025 cyhoeddwyd addasiadau Cymraeg o 28 o deitlau Saesneg sy'n hyrwyddo a dathlu amrywiaeth – gan gynnwys Windrush Child gan Benjamin Zephaniah (Un o Blant y Windrush, addaswyd/cyfieithwyd gan Rhys Iorwerth) a Boys don't Cry gan Malorie Blackman (Gormod o Ddyn, addaswyd/cyfieithwyd gan Manon Steffan Ros).

## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### CROESAWU AWDURON I FRYN TAWE!
**-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG**

Diolch i Neil Rosser am gynnal gweithdy ysgrifennu creadigol i griw o fechgyn blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Llwyddodd pawb i greu cymeriadau a phlot cofiadwy... a rhai'n codi arswyd!

Diolch i Elin Meek am ddod i siarad â Blwyddyn 7. Mae'r flwyddyn yn astudio awduron lleol ac roedd y disgyblion wrth eu boddau i gael y cyfle i gwrdd â Elin Meek a chael holi cwestiynau am ei gyrfa a'i bywyd fel awdur.






### CAPTEN NEWYDD!
**-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED**

Llongyfarchiadau i Brooke Taylor o flwyddyn 12 ar gael ei phenodi yn gapten adran ieuenctid Clwb Golff y Mond. Mae hyn yn dipyn o anrhydedd iddi gan mai hi yw'r ferch gyntaf o'r adran ieuenctid i gael ei dewis. Bu'n aelod o'r clwb ers iddi fod yn 7 a thyfodd i fod yn gystadleuydd anodd ei threchu, gan ddal ei thir yn erbyn y goreuon ymysg y bechgyn!

Derbyniodd grys y capten gan y capten blaenorol, sef Osian Davies o flwyddyn 11, a dewisiodd Ethan Rees o flwyddyn 11 fel ei his-gapten. Mae'n amlwg bydd dipyn o dalent golffio gennym ni yn y chweched erbyn Medi 2026!

Pob dymuniad da i ti Brooke!




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr.

Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Ionawr erbyn Ionawr 5ed trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government



# Eve Goodman + SERA

## Lansiad ALBUM Launch

Tŷ Tawe, Abertawe | Swansea

31/01/26

19:00 | £10

+ gwesteion arbennig | special guests

Chwaer

INDEPENDENT VENUE WEEK

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Noson Allan
Night Out


THE
GENTLE GOOD
Cefnogaeth gan **Bethan Nia**
**Tŷ Tawe, Abertawe**
**30.01.26 / £10 ADV**
Tocynnau:
**ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe**
menter iaith abertawe
INDEPENDENT VENUE WEEK

# Siop Tŷ Tawe

9 Stryd Christina SA1 4EW
(oddi ar Stryd y Brenin)

## Llyfrau, cardiau a nwyddau Cymraeg & Gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg lleol

- Llyfrau Cymraeg i bob oedran
- Cardiau i bob achlysur
- Anrhegion
- Calendrau
- Llyfrau ac adnoddau i ddysgwyr















01792 456856
siop@sioptytawe.co.uk
Siop Tŷ Tawe (@ysioptytawe)

SIOP TŶ TAWE - AM BOPETH CYMRAEG

DEWCH DRAW I BORI HEDDIW CROESO MAWR I CHI GYD!